**Mark Drakeford AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**
**Cabinet Secretary for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P/MD/3301/17

Simon Thomas AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

30 Medi 2017

Annwyl Simon,

Mae Cyfrifon Cyfunol Blynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17 bellach wedi eu harchwilio, a'u cyhoeddi ar 6 Medi 2017. Yn unol â'm hymrwymiad i arferion da a thryloywder, gallaf yn awr ddarparu adroddiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid ar alldro terfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17 yn erbyn y cynlluniau gwario sydd wedi eu cymeradwyo yn Ail Gyllideb Atodol 2016-17.

Cwmpas yr alldro terfynol ar gyfer 2016-17 yw £13.8 biliwn yn erbyn Cyllideb Llywodraeth Cymru o £14.1 biliwn. Mae hyn yn cynrychioli amrywiant o 2.2% yn erbyn y gyllideb a gymeradwywyd.

Mae'r adroddiad a'r atodiadau perthnasol yn darparu'r canlynol: crynodeb o wariant yn ôl portffolio o fewn cyfansymiau rheolaeth y Trysorlys; amrywiadau o'u cymharu â'r gyllideb; eglurhad o amrywiannau sylweddol; a manylion symiau sydd i'w cario ymlaen i'r flwyddyn bresennol o dan fecanwaith Cyfnewid Cyllidebau Trysorlys Ei Mawrhydi.

Byddwn yn hapus i drefnu bod Swyddogion ar gael i drafod manylion yr adroddiad os ydych yn teimlo y byddai hynny o fudd.

Yn gywir,

Mark.

**Mark Drakeford AM/AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Adroddiad Llywodraeth Cymru

# ar Alldro 2016-17

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol i'r Pwyllgor Cyllid ar alldro archwiliedig 2016-17 Llywodraeth Cymru wedi'i osod yn erbyn y gwariant arfaethedig yn Ail Gyllideb Atodol 2016-17.

## 1. Cyflwyniad

**1.1** Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol â'r protocol a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 21 Mawrth 2012 ynghylch newidiadau i gynnig y Gyllideb a'u heffeithiau ar gylch y Gyllideb yn ystod y flwyddyn.

**1.2** Fel rhan o'r protocol, cytunodd Llywodraeth Cymru ar y canlynol:

*Yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio mewn modd agored a thryloyw, bydd yn darparu adroddiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor ar y canlyniadau terfynol. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys cymhariaeth â'r cynlluniau gwario a nodwyd yng Nghyllideb Atodol olaf y flwyddyn ac eglurhad o'r amrywiadau sylweddol.*

**1.3** Cafodd yr ymrwymiad hwn ei ailddatgan yn y protocol diwygiedig a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 21 Mehefin 2017.

**1.4** Mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael â'r ymrwymiad hwnnw ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-17.

**1.5** Cymeradwywyd Ail Gyllideb Atodol 2016-17 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 7 Mawrth 2017. Mae'r alldro terfynol yn dilyn cyhoeddi Cyfrifon Cyfunol Blynyddol Llywodraeth Cymru ar 6 Medi 2017. Gweler y ddolen ganlynol:

http://llyw.cymru/about/civilservice/how-we-work/facts-figures/ourfinance/welsh-government-consolidated-accounts/welsh-government-annual-accounts-2016-2017/?skip=1&lang=cy

**1.6** Caiff yr adroddiad ar yr alldro ei lunio ar sail strwythur cyllideb Llywodraeth Cymru sydd mewn grym ar y pryd.

## 2. Alldro Prif Grwpiau Gwariant 2016-17

**2.1** Cyflwynwyd Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru gerbron y Cynulliad ar 31 Awst 2017. Mae'r cyfrifon hyn sydd wedi'u harchwilio yn cynnwys Crynodeb o Alldro Adnoddau yn erbyn y cyfansymiau rheoli a gymeradwywyd yng nghynnig Ail Gyllideb Atodol 2016-17 (y 'Cwmpas').

**2.2** Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion alldro yn erbyn y rheolaethau sy'n cael eu gweithredu a'u gorfodi gan Drysorlys EM. Mae manylion y cyllidebau gweinyddol hyn ar gael yn y dogfennau a'r tablau oedd yn cyd-fynd â'r Ail Gyllideb Atodol.

### Alldro Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)

**2.3** Alldro DEL Llywodraeth Cymru sydd wedi'i archwilio yw £14,707 miliwn. Mae hyn yn danwariant o £83 miliwn yn erbyn y gyllideb, fel y cytunwyd arno yn yr Ail Gyllideb Atodol.

**2.4** Mae'r alldro hwn yn cynnwys tanwariant o £9.1 miliwn yn erbyn y gyllideb Adnoddau Cyllidol (refeniw sydd bron yn arian parod) a £0.7 miliwn yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf. Mae hyn yn danwariant o 0.07% yn erbyn Adnoddau Cyllidol a 0.05% yn erbyn Cyfalaf.

**2.5** Mae tanwariant o £73.6 miliwn o ran y gyllideb Adnoddau Anghyllidol (heb fod yn arian parod). Mae'n bwysig nodi bod y gyllideb Adnoddau Anghyllidol wedi'i chlustnodi a'i bod yn cynnwys addasiadau cyfrifyddu megis dibrisiant (gweler isod). Felly, ni fyddai'r arian wedi gallu cael ei ailgyfeirio i raglenni gwariant Llywodraeth Cymru.

**2.6** Fel mewn blynyddoedd blaenorol, caiff yr holl orwariant ac unrhyw danwariant sy'n fwy na 1% o gyllidebau DEL portffolio (Prif Grwpiau

Gwariant neu MEG) ac sy'n uwch na lefel de-minimis o £0.5 miliwn eu hegluro isod. Mae dadansoddiad o'r alldro yn ôl MEG ar gael yn Atodiad 1.

### Adnoddau Cyllidol (Refeniw)

**2.7** Unwaith eto, roedd lefel gwariant MEG yn y dosbarthiad hwn o'r gyllideb hon yn agos iawn ati. Cafwyd gwybod am danwariant bach iawn yn chwech o'r saith MEG, ac un gyllideb yn unig a ragorodd ar amrywiad o 1% wrth ei fesur yn erbyn yr Ail Gyllideb Atodol. Mae hyn yn darparu rhywfaint o sicrwydd bod gwariant yng nghyllideb refeniw Llywodraeth Cymru o £13 biliwn wedi'i wneud i'r eithaf.

**2.8** Bu gorwariant o £5 miliwn yn refeniw MEG yr Economi a'r Seilwaith. Talwyd arian ychwanegol am waith a wnaed ar brosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus er mwyn sicrhau'r gwariant mwyaf posibl yn y flwyddyn bresennol ac er mwyn rhyddhau pwysau cyllidebol yn y dyfodol. Caiff y gorwariant hwn ei wrthbwyso gan danwariant mewn MEG eraill.

**2.9** Y tanwariant o ran refeniw Iechyd, Llesiant a Chwaraeon oedd £7.2 miliwn. Roedd hyn yn cynnwys cyfanswm diffyg gan gyrff y GIG yng Nghymru o £147.7 miliwn. Llwyddwyd i ddiwallu'r diffyg drwy welliannau i sefyllfa'r GIG a thanwariant o ran cyllidebau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol canolog Llywodraeth Cymru yn yr MEG.

**2.10** Nodwyd tanwariant o £2.3 miliwn yng nghyllideb refeniw Llywodraeth Leol. Mae'r hyn a ganlyn wedi'i gynnwys yn y swm hwn: £0.9 miliwn ar Drawsnewid a Deddfwriaeth ar ôl mabwysiadu dull newydd o fynd ati i drawsnewid llywodraeth leol; £0.6 miliwn sy'n ymwneud â Swyddogion Cymorth Cymunedol gyda'r amcangyfrifon a baratowyd ar ddechrau'r flwyddyn rhywfaint yn uwch na'r costau gwirioneddol; a £0.2 miliwn yn erbyn Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru sy'n ymwneud â ffioedd adolygydd cymheiriaid a chostau teithio a chynhaliaeth berthnasol. Roedd hefyd nifer o achosion o danwariant llai sy'n cyfrif am y balans sy'n weddill.

**2.11** Nodwyd amrywiad sy'n rhagori ar 1% yn erbyn MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu. Nodwyd amrywiad o £4.1 miliwn oherwydd tanwariant yn erbyn cyllideb cronfa Buddsoddi i Arbed yn bennaf. Ystyrir defnyddio'r tanwariant at y diben gwreiddiol yn y dyfodol.

**Cyfalaf**

**2.12** Roedd y perfformiad yn erbyn cyllideb gyfalaf Llywodraeth Cymru o £1.4 biliwn yn agos at yr hyn a gyllidebwyd, lle nodwyd llai na £0.3 miliwn o danwariant gan bob un MEG.

**Adnoddau Anghyllidol (refeniw heb fod yn arian parod)**

**2.13** Mae mwyafrif o danwariant DEL Llywodraeth Cymru yn ymwneud â chyllidebau heb fod yn arian parod (£73.6 miliwn). Mae cyllidebau heb fod yn arian parod wedi'u clustnodi ac yn cael eu darparu ar gyfer amcangyfrifon cyfrifyddu megis dibrisiant ac addasiadau i ddarpariaethau. Ceir eglurhad o'r rheini a wnaeth danwario o 1% neu ragor isod.

**2.14** Nodwyd tanwariant o £4.6 miliwn yng nghyllideb heb fod yn arian parod Iechyd, Llesiant a Chwaraeon. Mae'r gyllideb yn bennaf yn ariannu costau dibrisiant sy'n codi ar ystad y GIG felly mae'r rhagolygon yn sensitif i amrywiadau i ddilyniant cynlluniau cyfalaf, prisiadau blynyddol ac amseru ychwanegiadau a gwarediadau cyfalaf.

**2.15** Roedd y tanwariant o £37.7 miliwn yn MEG yr Economi a'r Seilwaith yn deillio'n bennaf o gostau dibrisiant yn sgil newidiadau i'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer y prisiad blynyddol o'r ffyrdd. Y rhwydwaith ffyrdd yw ased mwyaf Llywodraeth Cymru.

**2.16** Nodwyd tanwariant o £27.6 miliwn yn erbyn y gyllideb Addysg. Mae'r gyllideb hon yn cynnwys amcangyfrif o gost y benthyciadau i fyfyrwyr sy'n cael eu dileu bob blwyddyn. Caiff y gost a gyfrifir ei chynhyrchu gan fodel

ystadegol a gafodd ei ddatblygu gan Lywodraeth DU. Codir y gost ar werth y llyfr benthyciadau i fyfyrwyr. Mae'r gwaith o fodelu'n gymhleth ac mae'n ystyried sawl ffactor cymdeithasol ac economaidd. Felly, mae'n anodd rhagweld yn fanwl cywir.

**2.17** Nododd MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu Llywodraeth Cymru danwariant o £4.6 miliwn o'r gyllideb heb fod yn arian parod perthnasol. Mae'r tanwariant hwn yn deillio o gostau dibrisio is na'r disgwyl mewn perthynas ag ystad Llywodraeth Cymru.

## Alldro Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)

**2.18** Mae Trysorlys EM yn cydnabod pa mor ansefydlog yw rhaglenni penodol a'u bod yn seiliedig ar alw, yn ogystal â pha mor anodd ydyw i amcangyfrif costau dros gyfnod o amser. O ganlyniad i hyn, caiff cyllidebau'r rhaglenni hyn eu rheoli'n flynyddol, ac fel arfer, mae'r Trysorlys yn cyflenwi'r arian hwn. Mae mwyafrif ein cyllidebau AME yn cynnwys costau anariannol ac mae enghreifftiau'n cynnwys diffygiant asedau, cynnydd mewn darpariaeth, y benthyciadau sy'n cael eu rhoi i fyfyrwyr a'u had-dalu a phrisiadau pensiwn cyrff a noddir. Ni all Llywodraeth Cymru ailddyrannu arian sydd heb ei wario yn erbyn rhaglenni AME. Caiff y prif amrywiadau eu hegluro isod.

**2.19** Nodwyd gorwariant yng nghyllideb AME Iechyd, Llesiant a Chwaraeon o £8.2 miliwn. Elfen gyntaf y gorwario yw £15 miliwn sy'n cynnwys symudiadau yn y darpariaethau. Roedd symudiad darpariaeth Cronfa Risg Cymru £15.8 miliwn uwchben y gyllideb. Bu hyn oherwydd i'r Arglwydd Ganghellor ar y pryd adolygu cyfradd disgownt niwed personol yn ystod chwarter ola'r flwyddyn, gan effeithio ar bob setliad hawliadau yn sgil esgeuluster. Roedd y gyfradd yn cynrychioli newid sylweddol, o 2.5% i finws 0.75%. Mae'r gorwariant i ddarpariaeth y £13.6 miliwn sy'n weddill yn ymwneud â setliadau strwythuredig ychwanegol sy'n codi ac addasiadau

i'r amcangyfrif cwantwm. Roedd tanwariant o £14.4 miliwn ar draws darpariaethau Iechyd eraill yn gwrthbwyso'r gorwariant hwn.

**2.20** Ail elfen yr amrywiad Iechyd, Llesiant a Chwaraeon hwn yw tanwariant o £6.4 miliwn ar ddiffygiant ar werth asedau'r GIG. Mae hyn oherwydd y gwahaniaethau rhwng rhagolygon a phrisiadau terfynol neu newidiadau i amseriad y cynllun.

**2.21** Roedd yr amrywiad AME o £39.6 miliwn yn MEG yr Economi a'r Seilwaith wedi codi yn sgil lefelau diffygiant is na'r hyn a gyllidebwyd, yn ogystal â darpariaethau arwyddocaol yn cael eu hadfer o flynyddoedd blaenorol.

**2.22** Nodwyd tanwariant o £17.2 miliwn ar gyfer cyllideb AME Addysg. Roedd hyn yn berthnasol yn bennaf i gyllidebau benthyciadau i fyfyrwyr o £23.6 miliwn sy'n seiliedig ar alw ac yn anodd eu rhagweld. Roedd nifer y materion oedd yn ymwneud â benthyciadau a nifer yr ad-daliadau yn y flwyddyn yn llai na'r disgwyl. Gorbwyswyd hyn gan orwariant o £6.4 miliwn oherwydd y symudiad ddiwedd y flwyddyn i ddarpariaeth pensiwn Gyrfa Cymru. Mae'r symudiad yn seiliedig ar brisiad actwaraidd gan ddarparwyr y cynllun pensiwn.

**2.23** Mae'r tanwariant o £2.4 miliwn yn erbyn MEG yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn ymwneud â rhwymedigaethau pensiwn arfaethedig a gododd wrth i staff drosglwyddo o Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i Cyfoeth Naturiol Cymru ar 1 Ebrill 2013. Roedd aelodau gweithredol a'r rheini a oedd yn gymwys i fod yn aelodau gweithredol o Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd yn cadw'r hawl i barhau'n rhan o'r Gronfa wrth iddynt drosglwyddo. O fis Ebrill 2013, trosglwyddwyd y rhwymedigaethau pensiwn i Cyfoeth Naturiol Cymru ac ers hynny, mae cyllideb wedi'i chynnwys i dalu am unrhyw ddiffyg ariannol yn y cynllun yn y dyfodol. Er bod y gyllideb wedi'i chynnwys yn ystod y pedair blynedd ers trosglwyddo, nid yw wedi'i defnyddio.

**2.24** Nodwyd tanwariant o £5.9 miliwn yng nghyllideb MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu. Roedd mwyafrif yr amrywiad hwn yn berthnasol i ddarpariaethau ar gyfer ymddeol yn gynnar a chostau pensiwn eraill staff Llywodraeth Cymru. Roedd y costau pensiwn yn cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng buddion a gronnwyd yn ystod y flwyddyn a chyfraniadau ariannol a wnaed i'r gronfa. Mae'n anodd iawn rhagweld y cyfraniadau hyn.

**2.25** Mae atodiad 2 i'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o alldro yn erbyn Cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol.

## 3. Cyfnewid Cyllidebau a Chario Drosodd

**3.1** Yn yr Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2016-17, nododd Llywodraeth Cymru £69.6 miliwn o DEL Adnoddau Cyllidol wrth gefn a £185.7 miliwn o DEL Cyfalaf wrth gefn. Ein bwriad oedd cario drosodd yr arian wrth gefn hwn ynghyd ag unrhyw danwariant hyd at y capiau a gytunwyd sy'n cael eu gorfodi gan Drysorlys EM o dan y system Cyfnewid Cyllidebau. Mae'r capiau wedi'u gosod ar 0.6% o DEL Adnoddau Cymru, 1.5% o DEL Cyfalaf a 15% o DEL Trafodiadau Ariannol Cyfalaf.

**3.2** Yn ystod 2016-17, cafwyd goddefeb gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys i gario drosodd £9 miliwn o ran y DEL Adnoddau Cyllidol, £60 miliwn o ran y DEL Cyfalaf a £100 miliwn o ran y DEL Trafodiadau Ariannol Cyfalaf uwchben y cyfyngiadau a osodir. Y rheswm dros hyn oedd caniatáu unrhyw gymorth y byddai ei angen yn y dyfodol oherwydd yr ansicrwydd dros ddyfodol y diwydiant dur yng Nghymru yn dilyn cyhoeddiadau Tata Steel.

**3.3** Mae tabl 1 yn dangos sefyllfa'r arian wrth gefn terfynol. Y balansau i'w cario drosodd ar gyfer DEL Cymru fydd £79.2 miliwn o Adnoddau Cyllidol, £13.2 miliwn o Adnoddau Anghyllidol a £186 miliwn o Gyfalaf, ac mae'r rhain o fewn terfynau diwygiedig y Trysorlys.

**Tabl 1 Cario drosodd o ganlyniad i alldro DEL Cymru**

| | Adnoddau Cyllidol £m | Adnoddau Anghyllidol £m | Cyfalaf £m |
|---|---|---|---|
| Arian Wrth Gefn yn ôl Ail Gyllideb Atodol 2016-17 | 69.6 | 430.0 | 185.7 |
| Tanwariant Llywodraeth Cymru 2016-17 | 9.1 | | 0.7 |
| Alldro Cyrff Eraill a Thaliadau Uniongyrchol 2016-17 | 0.5 | 0.4 | -0.4 |
| **Balans i'w gario drosodd i 2017-18** | **79.2** | **13.2**[1] | **186.0** |
| *Terfynau Cyfnewid Cyllidebau'r Trysorlys* | *87.9* | *4.5* | *210.5*[2] |

**3.4** Yn ogystal â'r tanwariant a nodwyd gan Lywodraeth Cymru, mae'r balansau i'w cario drosodd yn ystyried alldro'r cyrff eraill sy'n cael eu hariannu gan DEL Cymru, hy Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.

**3.5** Bydd yr addasiadau i'n llinell sylfaen er mwyn adlewyrchu'r swm terfynol sy'n cael ei gario drosodd fel yr amlinellir uchod yn cael eu gwneud yn ystod y flwyddyn ariannol drwy broses Amcangyfrif Atodol y DU. Bydd hyn yn ymddangos yn Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2017-18.

**3.6** Cafodd dyraniadau o'r gronfa Adnoddau Ariannol wrth gefn o £47.4 miliwn, a'r gronfa Gyfalaf o £2.2 miliwn eu gwneud yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2017-18.

**3.7** O fis Ebrill 2018, bydd y cyfleuster Cyfnewid Cyllidebau yn cael ei ddisodli gan ‘Gronfa Arian Parod’ newydd. O’r dyddiad hwnnw, bydd tanwariant i

---

[1] Pe na fyddai'r terfyn ar gyfer cario drosodd DEL Adnoddau Cyllidol yn cael ei ddefnyddio'n llawn, mae modd defnyddio'r balans i gario drosodd DEL Adnoddau Anghyllidol ychwanegol hyd at y cap cyffredinol ar y DEL Adnoddau.

[2] Mae'r terfyn cyfalaf yn cynnwys £81.6m o drafodiadau traddodiadol a £128.9m o drafodiadau ariannol.

DEL yn cael ei dalu i'r gronfa i'w ddefnyddio yn y dyfodol. Gall y gronfa newydd gynnwys hyd at £350 miliwn mewn termau crynswth.

## Atodiad 1 – Alldro Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) 2016-17

| Prif Grŵp Gwariant | Cyllideb Atodol | | | Alldro | | | Tan/Gorwariant (-) | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Adnoddau Cyllidol £m | Adnoddau Anghyllidol £m | Cyfalaf £m | Adnoddau Cyllidol £m | Adnoddau Anghyllidol £m | Cyfalaf £m | Adnoddau Cyllidol £m | Adnoddau Anghyllidol £m | Cyfalaf £m |
| **Iechyd, Llesiant a Chwaraeon** | 6,752.0 | 174.8 | 276.8 | 6,744.8 | 170.2 | 276.5 | 7.2 | 4.6 | 0.3 |
| **Llywodraeth Leol** | 3,333.3 | 0.4 | 20.3 | 3,331.0 | 0.2 | 20.3 | 2.3 | 0.2 | 0 |
| **Cymunedau a Phlant** | 362.5 | 0 | 403.5 | 362.4 | 0 | 403.4 | 0.1 | 0 | 0.1 |
| **Yr Economi a'r Seilwaith** | 635.6 | -212.0 | 447.8 | 640.6 | -249.7 | 447.8 | -5.0 | 37.7 | 0 |
| **Addysg** | 1,370.4 | 333.0 | 175.6 | 1,370.1 | 305.4 | 175.5 | 0.3 | 27.6 | 0.1 |
| **Yr Amgylchedd a Materion Gwledig** | 277.5 | 11.8 | 102.2 | 277.4 | 11.8 | 102.0 | 0.1 | 0 | 0.2 |
| **Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu** | 287.5 | 16.0 | 21.2 | 283.4 | 12.5 | 21.2 | 4.1 | 3.5 | 0 |
| **CYFANSWM** | **13,018.8** | **324.0** | **1,447.4** | **13,009.7** | **250.4** | **1,446.7** | **9.1** | **73.6** | **0.7** |

## Atodiad 2 – Alldro Gwariant a Reolir yn Flynyddol 2016-17

| Prif Grŵp Gwariant | Cyllideb Atodol £m | Alldro £m | Tan/ Gorwariant(-) £m |
|---|---|---|---|
| **Iechyd, Llesiant a Chwaraeon** | 265.6 | 273.8 | -8.2 |
| **Llywodraeth Leol** | 977.0 | 977.0 | 0 |
| **Cymunedau a Phlant** | 33.1 | 33.1 | 0 |
| **Yr Economi a'r Seilwaith** | 26.4 | -13.2 | 39.6 |
| **Addysg** | 387.6 | 370.4 | 17.2 |
| **Yr Amgylchedd a Materion Gwledig** | 2.4 | 0 | 2.4 |
| **Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu** | 2.6 | -3.3 | 5.9 |
| **CYFANSWM** | **1,694.7** | **1,637.8** | **56.9** |